**Cofnodion Cyfarfod CCG Hydref 28.10.21**

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:258: Presennol:** Gareth Jones, (Cadeirydd), Bedwyr Fychan, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Paul Hughes, Dafydd Evans, Iwan Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:257: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis, William Owen, Aled Griffiths

**19:258: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:259: Cyflwyno a derbyn cofnodion Medi**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Bedwyr Fychan. Fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:260: Materion yn codi o'r Cofnodion**
**19:261: Adroddiad y Clerc** Nodwyd bod:

- Cyfrifon Ddiwedd y Flwyddyn/ Archwiliad 2020-2021 wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan
- Y Parch Beecroft yn fodlon iawn bod gwirfoddolwyr Dolau Dyfi drwy gysylltiad â Rhodri Wigley yn crynhoi mynwent eglwys Darowen
- Rhwydwaith Cymru wedi cael gwybod am y canghennau wrth y garej a maes parcio Glantwymyn. (Powys Cyngor Sir Powys yn dweud mai rhwydwaith Cymru sy'n gyfrifol.)
- Y coed wrth yr ysgol wedi cael eu hadrodd i'r Pennaeth a Powys.
- Mae BT wedi cytuno i drwsio'r bocs
- Cysylltwyd â Chymdeithas yr Iaith i ddangos cefnogaeth y Cyngor i'r ymgyrch tai
- Mae Safonau Masnach o'r farn mai twyll oedd llythyrau 'Neighbour Glantwymyn' a dderbyniwyd gan nifer o deuluoedd yr ardal.
- Ciosg Cemaes Erbyn hyn ni fydd Deryck Lewis yn gwneud y gwaith
- Biniau Cwm Ffrydlan wedi eu hadrodd ddwywaith i Gyngor Sir Powys
- Baw cŵn Cemaes, Cwmlline. Glantwymyn a'r cais am finiau ac arwyddion wedi ei adrodd ddwywaith.
- Mr. Jehu – llythyr wedi mynd
- Diolchwyd i'r sawl oedd wedi ymateb i'r cais am wybodaeth ar gyfer Cofrestr Datgan Buddiannau Cynghorwyr

**19:262: Cynllunio - Dim**
**19:263: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Whittingham Riddell - £690.00 Ffioedd proffesiynol am yr adroddiad ymchwiliad mewnol am y flwyddyn yn diweddu ar yr 31ain o

Fawrth 2021 (Anfoneb 164387) Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

- Whittingham Riddell £149.60 PAYE y Clerc 6.7.21-5.10.21 Cyflogres Mis 06 & Chwarter 2 PAYE Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.
- Cyflog y Clerc £228.80 (Medi) Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans
- Symiau a dderbyniwyd yn 2019 Nodwyd bod James Memorials and Co wedi dweud nad oedden nhw wedi talu'r pres i'r banc gan mai sieciau y maent yn eu defnyddio yn hytrach nag arian parod.
- Adolygwyd cyflog y clerc a'i chodi i £12.60 yr awr o fis Tachwedd ymlaen. Cynigiwyd hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans. Bydd y clerc yn paratoi'r cyfrifon ar gyfer yr archwiliadau blynyddol.
- Pensiwn y clerc– Cysylltir â Whittingham Riddell a gofyn iddynt ymateb i'r llythyr a gafwyd gan CThEM i nodi nad yw'n berthnasol achos trothwy cyflogau.
- Peter Jones £1,360.00 - Torri gwair ym mynwentydd Darowen a Llanwrin o leiaf 4 gwaith yn ystod y tymor fel y cytunwyd (Anfoneb 0083) Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen. Mynegwyd diolch am y gwaith cryno yn y ddwy fynwent.
- Derbyniwyd taliad gan Barclays i gyfrif cyfredol y Cyngor am £38.61 o ganlyniad i gamgymeriad gan Barclays.

**19:264: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:264:1: Cyngor Sir Powys - Elwyn Vaughan**

Mae Cabinet Powys wedi newid statws ieithyddol Ysgol Bro Hyddgen dros gyfnod. O fis Medi 2022 ymlaen bydd CA 1 a 2 yn troi'n raddol yn uniaith Gymraeg. Cynhelir ymgynghoriad yr wythnos nesaf i drafod y cynlluniau. Diolchwyd i Elwyn Vaughan am ei gefnogaeth frwd i'r Gymraeg o fewn y sir.
Mynegwyd pryderon nad oedd murlun 'Cofiwch Dryweryn,' sy'n waith i ddisgyblion, yn cael bod ar wal yr ysgol.

**19:264:2: Fforwm y Cleifion, Gwenfair Davies** Nid yw Fforwm y Cleifion wedi cael cyfle i gyfarfod hyd yn hyn. Bydd Gwenfair yn cysylltu â Hayley Thomas Bwrdd Addysgu Iechyd Powys ar ran y Cyngor plwy am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysbyty newydd erbyn cyfarfod CCG nesaf.

**19:264:3: Neuadd Cymuned Glantwymyn Paul Hughes**

Cynhelir gwasanaeth goffa ar y 14eg o Fedi. Bydd Gareth Jones yn mynychu a gosod torch ar ran y Cyngor. Mynegwyd diolch i Mr. Glyn Williams am ei waith dyfal wrth chwarae rhan allweddol wrth gynnal a chadw'r gofeb.

Da yw gweld Cwmni Theatr Maldwyn yn dechrau cwrdd eto yn y neuadd wrth gynnal ymarferion i ddathlu'r Mab Darogan yn ddeugain oed.

**19:265: Ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Powys**

Bydd Cyngor Cymuned Glantwymyn i ddatgan cefnogaeth y Cyngor i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Powys a'i amcanion.

Mae'r Cyngor hefyd am bwysleisio pa mor bwysig yw darparu canolfan drochi bwrpasol ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd, yn debyg i'r ddarpariaeth yng Ngheredigion a Gwynedd. Dyna un o'r diffygion ym Mhowys yn hanesyddol. Byddai trochi'n rhan allweddol o gefnogi datblygiad addysg Gymraeg yr ardal hon, yn ogystal â gweddill y sir, a byddai darpariaeth o'r math hefyd yn tawelu meddwl rhieni plant di-Gymraeg.

Gofynnir hefyd am sicrhau darpariaeth briodol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae sicrhau darpariaeth blynyddoedd cynnar ledled y Sir yn allweddol fel cam cyntaf ar gyfer dewis addysg Gymraeg. Wrth i dendro gychwyn ar gyfer darpariaeth i'r Blynyddoedd Cynnar felly, pwysleisir pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cefnogi dewis iaith yn yr ysgol, a sicrhau bod darpariaeth Blynyddoedd Cynnar Cymraeg yn ei le i gefnogi amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Powys.

**19:266: Tŷ cyngor Llanwrin – cais i'r Cyngor gefnogi cais am dŷ.** Nodwyd bod system sgorio eisoes ar waith gan Gyngor Sir Powys sy'n ystyried ffactorau penodol gan gynnwys iechyd a chysylltiadau lleol ar gyfer y broses hon. Mae'r Cyngor yn cefnogi egwyddor darparu tai i bobl leol yn llwyr ond teimlwyd na fyddai unrhyw fudd ychwanegol felly pe byddai'r Cyngor yn anfon llythyr.

**19:267: Eglwysi Darowen a Llanwrin.** Penderfynwyd adolygu'r llythyr y cytunwyd arno (19:255:3) i gynnwys gwybodaeth ychwanegol sef bod dau fwa cerrig angen sylw a bod coeden ywen angen ei thocio yn eglwys Llanwrin.

**19:268: Bocs ffôn Cemaes** Rhoddir hysbyseb yn y Blewyn Glas ar gyfer tendrau i adfer, cynnal a chadw'r bocs ffôn. Cynigiwyd hyn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan. (Yn dilyn gwybodaeth bellach nodwyd nad oedd modd talu £50.00 i gynghorwyr fel y tybiwyd gynt, hyd yn oed mewn amgylchiadau eithriadol megis hwn pan nad oedd gweithiwr cymwys ar gael.) Nodwyd mai da fyddai symud ymlaen gyda'r prosiect hwn er sicrhau diogelwch.

**19:269: Gohebiaeth:**

- Cafwyd cais am ddibribriliwr yng Ngheinws. Anfonir gwybodaeth am Calonhearts. Nodwyd hefyd nad oedd y Cyngor yn darparu diffibrilwyr. Fel arfer aelodau cymunedau sy'n codi pres ac yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.
- Cafwyd gwybodaeth gan Calonhearts am ddiffibrilwyr.

- Nodwyd bod yr ohebiaeth ddiweddaraf Tyfu Dyfi a Theithio Llesol wedi cael eu hanfon i'r Cyngor yn barod.
- Nodwyd bod Came and co wedi mynd yn 'Gallagher' (yswiriant).

**19:270: Unrhyw Fater Arall**
**19:270:1: Arolwg Ardal Etholiad-** Mae'r Cyngor o'r farn y dylid cysylltu i ddweud bod y Cyngor yn dymuno i'r ardal berthyn i ardal Meirionydd ar y sail bod yr ardaloedd yn fwy tebyg i'w gilydd na'r ardal arfaethedig, sef y Waun a Llangollen. Cynigiwyd hwn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

**19:270:2: Canolfan Hamdden Bro Ddyfi-**Mynegwyd pryderon am gyflwr y Ganolfan Hamdden yn enwedig o ystyried na fydd y ganolfan newydd yn barod am dair blynedd. Pwysleisiwyd bod angen cynnal a chadw'n ddifrifol ar y lle - e.e. toiledau'r plant, toiledau'r dynion. Teimlwyd bod hyn yn hollbwysig yng nghyd-destun pwysigrwydd hyrwyddo byw'n iach a mynegwyd pryderon am ddiogelwch gan fod plant a phobl ifanc yn defnyddio'r ganolfan. Gwelir eisiau'r caffi o ran cyfleustra a chymdeithasu. Cysylltir â Freedom Lesiure a Chyngor Sir Powys i fynegi'r pryderon.

**19:270:3:** Bocs ffôn Darowen Cysylltir â BT i ofyn iddyn nhw ei beintio.
Daeth y cyfarfod i ben am 9.40
Cynhelir y cyfarfod nesaf 26.11.21

---